


# **papur**



# **priordy**



**Ac nid dim ond y greadigaeth sy'n  
griddfan, ond ni hefyd sy'n  
Gristnogion...**

**Llythyr Paul at y Rhufeiniaid 8:23 ([beibl.net](http://beibl.net))**

*Dewiswyd gan Heledd ap Gwynfor  
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

**Rhifyn 333  
PAPUR MAI 2020**

# SGWRS Â'N GWEINIDOG

Mae disgwyl i weinidogion heddiw, fel erioed, arwain gwasanaethau a darparu arweiniad ysbrydol - ac mae ganddynt gant a mil o bethau eraill i'w gwneud ar ben hynny. Mae gofyn iddynt hefyd addasu'u dulliau o weithredu er mwyn cwrdd â gofynion gwahanol gyfnodau mewn bywyd. A go brin fod y gofyn arnynt i wneud hynny'n fwy nag ar hyn o bryd a ninnau'n ymneilltuo'n gymdeithasol yng nghanol argyfwng haint coronafeirws a'n capeli ni i gyd ar gau. Dyma holi Beti-Wyn:



**PP:** Ryn ni'n eich clywed yn dweud yn aml y dyddiau hyn fod y capel ar gau ond bod yr eglwys yn dal ar agor. Allwch chi ymhelaethu ychydig ar hyn?

**BWJ:** Roedd gorfod cau drws y capel oherwydd y Coronafeirws yn siom fawr i mi. Onid oes angen cynhaliaeth ysbrydol yn fwy nag erioed yng nghanol dryswch a phryder y sefyllfa bresennol? Daeth ton o banig trosof! Gwyddwn fod angen gweinidogaeth ar fy mhobl ond hefyd fod angen fy mhobl arna i. Dyma benderfynu felly fod yn rhaid cadw cymuned yr eglwys (sef y bobl) ynghyd, er bod drws y capel (yr adeilad) ar gau.

**PP:** Fel y gwyddom, rydych yn chwip o dda am ddefnyddio technoleg ond beth yw'r gwahaniaeth, meddech chi, rhwng cynnal oedfa ddigidol ac oedfa arferol ar y Sul?

**BWJ:** Roeddwn yn benderfynol o ddarparu oedfa i aelodau eglwys i'r Ofalaeth bob Sul. Dyma fynd ati i sicrhau bod yr oedfa wythnosol yn cyrraedd yr aelodau mewn un o dair ffordd: wedi'i recordio ymlaen llaw a'i throsglwyddo (sain yn unig) dros ebost; drwy CD i'r aelodau sydd heb gyswllt â'r we (diolch i Steffan a Gareth am helpu) ac yn drydydd, drwy ffrydio'r oedfa'n fyw ar foreau Sul o'm cartref ar dudalenau Facebook yr Ofalaeth. Buan y daeth y drefn newydd hon o weinidogaethu i'w lle Bu **Rhodri Darcy** o Undeb yr Annibynwyr o gymorth mawr. Mae paratoi oedfa ddigidol yn wahanol iawn i baratoi oedfa mewn capel. Yn un peth, does dim cynulleidfa weladwy o'ch blaen, ac yn aml iawn wrth arwain oedfa mewn capel mae ymateb y gynulleidfa'n cyfrannu'n fawr at yr oedfa. Hefyd, mae'r oedfaon digidol rwy'n eu paratoi tuag 20 munud o hyd. Teimlaf fod hyn yn fwy na digon i rywun sy'n syllu ar sgrîn! Mae'n ddigon o amser hefyd i fi drosglwyddo fy neges. Gan gofio bod oedfa



*ddigidol yn cyrraedd pobl (7 i 8 mil ohonynt ym mhob oedfa) nad ydynt i gyd o bosib yn dal cysylltiad â chapel neu eglwys, mae galw am bregethu esboniadol a gwneud yn siŵr fod y neges – un neges yn unig - i'w chlywed yn glir.*

**PP:** Yn sylwi'ch bod yn dymuno cadw at 10 o'r gloch y bore wrth gyflwyno'ch oedfa ddigidol. Oes rheswm am hyn?

**BWJ:** Tra bo rhyddid gan bawb i wrando ar yr oedfa ddigidol unrhyw bryd, rwy'n ei darlledu am 10 ar fore Sul er mwyn glynw at amser arferol yr oedfa, gan obeithio bod elfen o gydaddoli'n digwydd o hyd yn ein plith.

**PP:** Rydych yn gredwr mawr yn yr Ysgol Sul fel magwrfa'r eglwys. Ond sut ydych chi'n ceisio dal gafael yn ein plant a'n hieuenctid yn y cyfnod heriol hwn?

**BWJ:** Rwy wedi cadw mewn cyswllt â phlant y tair Ysgol Sul trwy gydol y cyfnod ac wedi darparu pecyn o weithgareddau'n adrodd stori'r Pasg ar eu cyfer. Bu'r ymateb yn wych ac mae enghreifftiau o'u gwaith yn y rhifyn hwn o Bapur Priody. Mae nifer o'r plant a'r bobl ifanc hefyd wedi bod yn brysur yn paratoi cardiau cyfarch ar gyfer yr aelodau sydd wedi hunanynysu ar hyn o bryd. Dyma gyfle ardderchog i gryfhau'r berthynas rhwng cenedlaethau'r eglwys. Hefyd, mae'n cyfaill ffyddlon Islwyn yr Asyn, sydd yn ymweld â'r Priordy bob Pasg wedi gwneud dau ymddangosiad ar Facebook dros yr Ŵyl, y naill yn darllen Stori Sul y Blodau, a'r llall yn darllen Stori Sul y Pasg. Mae dros ddwy fil o bobl wedi gwyllo Islwyn. Mae hynny'n lot o blant! Tybed os taw plant bach ydyn nhw i gyd!



**PP:** Mae'n dipyn o dasg gofalu amdanon ni i gyd ar y gorau, ddywedwn i! Sut ydych chi felly'n dod i'r afael â gwaith bugeilio'r dyddiau hyn?

**BWJ:** Mae gofal bugeilio'r aelodau'n flaenoriaeth. Aethpwyd ati ar unwaith i sefydlu tîm gofal (ar awgrym Elinor Wyn chwarae teg). Mae'r Priordy'n eglwys lle mae'i haelodau'n bugeilio'i gilydd yn naturiol ddigon, ond teimlwyd fod angen strwythur ychydig yn fwy cadarn dros gyfnod yr argyfwng. Mae'r tîm (o 10) yn gweithredu'n ardderchog a phob un yn cadw mewn cyswllt â'r aelodau maen nhw'n gyfrifol amdanynt. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw. Cofiwch, os oes angen unrhyw beth ar unrhyw un ohonoch, peidiwch â bod yn swil rhag gofyn. Cysylltwch â mi. Mae'r tîm yn cadw mewn cyswllt â'i gilydd drwy grŵp WhasApp, ond gwn fod pob aelod

*o'r tîm hefyd yn ymwybodol o'r elfen o breifatrwydd sydd ynglŷn â gofynion yr aelodau, ac maen nhw'n parchu hynny.*

*Cofiw'n hefyd am yr aelodau hynny nad ydyn nhw mewn sefyllfa fregus, ond sy'n gweithio yn y sector gofal iechyd, er enghraifft meddygon a nyrsys, athrawon sy'n helpu mewn ysgolion ac eraill sy'n peryglu eu hiechyd eu hunain yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bod o gymorth i eraill. Mae angen cefnogaeth fugeiliol arnyn nhw hefyd, yn ogystal â'r aelodau sy'n hunangyflogedig a lles eu staff yn eu gofal. Yn ardal Bancfyelin cofiw'n am y ffermwyr sy'n gorfod gwaredu llaeth ... mae effeithiau'r argyfwng yn bellgyrhaeddol ac yn galw am ein cefnogaeth fugeiliol fel eglwys a'n gweddïau. Rydw i'n ceisio ffonio'r aelodau yn eu tro. Rwy'n neilltuo awr y dydd i wneud hyn (cofiwch fod dros 350 ohonoch!) nes bod fy nghlust yn dechrau poethi ac yna rwy'n dechrau 'to ar y diwrnod canlynol!*



**PP: Mae galw mawr arnoch i ofalu am deulu galar ac angladdau. Sut ydych chi'n dod i'r afael â hyn nawr?**

**BWJ:** *Mae hyn yn her fawr. Rhaid glynu wrth ofynion y Llywodraeth ac ar hyn o bryd angladdau cwbl breifat yn unig sydd i'w cynnal. Mae hynny'n golygu dim gwasanaeth ar yr aelwyd, teulu agosaf yn unig yn yr angladd (3, 4 a 7 yn fy mhrofiad i'n ddiweddar), a 2 fedr rhwng pob sedd yn yr Amlosgfa. Y peth anoddaf i fi yw methu â bugeilio'r teuluoedd galar yn iawn. Mae gofyn gwneud holl drefniadau'r angladd dros y ffôn. Mae hyn yn brofiad chwithig iawn. Rhaid talu teyrnged i'r teuluoedd rwyf wedi ymwneud â nhw'n ddiweddar am fod mor amyneddgar, grasol a gwerthfawrogol. Diolch hefyd i Iwan Evans a'r teulu. Mae'r argyfwng wedi bod yn arbennig o heriol i drefnwyr angladdau. Wedi dweud hyn, daw ambell brofiad dyrchafol o sefyllfa ddigon anodd. Claddwyd y ddiweddar annwyl Gwen Williams o'r Priordy yng nghanol y lockdown. Pedwar oedd yn ei hangladd ond wrth i'r angladd godi o'r byngalo yn Tir Ysgawen, daeth y cymdogion i gyd allan a sefyll o flaen eu tai yn arwydd o barch. Penderfynais ddweud gair am Gwen mewn oedfa fer o ganol yr hewl, ac arwain mewn gweddi. Drannoeth i hyn, bûm yn arwain angladd un wraig ym Mancyfelin, ac wrth i'r angladd adael y fferm ac ymlwybro'n araf drwy'r pentref, roedd y trigolion i gyd yn sefyll yn urddasol y tu allan i'w tai fel arwydd o barch. Roedd y naill brofiad a'r llall yn deimladwy iawn.*

**PP: Mae'r amgylchiadau presennol wedi gorfodi'r byd crefyddol i newid ac addasu. Hen bryd, medd rhai. Beth yw'ch ymateb chi?**

**BWJ:** *O ran darlledu'n ddigidol, dylsw'n fod wedi bod yn gwneud hyn ers blynnyddoedd! Mae'r argyfwng presennol wedi fy ngorfodi i feddwl yn*

*fwy dyfeisgar a chreadigol. Y dewis oedd naill ai cymryd y cyfnod hwn yn dawel a gwneud fawr o ddim, neu edrych reit i mewn i lygaid yr argyfwng a chwilio am gyfleoedd newydd ynddo. Rwy'n credu y bydd ymateb eglwysi i'r cyfnod hwn o argyfwng yn dylanwadu'n fawr ar eu dyfodol.*



**PP: Ai yn ôl i'r arferol fydd hi yn hanes gweinidogion a chapeli wedi i'r haint presennol ddiflannu neu a ydych yn rhagweld newidiadau pellgyraeddol?**

**BWJ:** *Fedra i fyth ag ateb dros neb arall, ond o'm rhan i fy hunan, fe fydd pethau'n wahanol o hyn ymlaen – a hynny am resymau cadarnhaol ac nid negyddol. Rydym wedi cael cyfle ardderchog i fod yn fwy creadigol wrth gyflwyno'r Efengyl. Mae'r ymateb i'r creadigrwydd hwnnw wedi bod yn rhyfeddol. Rhaid adeiladu arno. Ond wedi dweud hynny, mae cwmni pobl yn allweddol. Wn ni ddim amdanoch chi, ond rwy'n ysu am eich gweld chi i gyd ac yn dyheu am ysgwyd llaw â chi, ac am fod yn eich cwmni. Rydym yn mynd i gael dathliad fel na welwyd erioed o'r blaen pan fyddwn nôl yn y capel! Mae angen y ddau - y personol a'r digidol i sicrhau bod neges yr Efengyl yn cyrraedd clustiau'r byd.*

**Diolch yn fawr iawn i chi am ateb y cwestiynau ac am eich arweiniad yn ystod y cyfnod anodd hwn. Pob bendith.**



BYW Y BEIBL

## DARLLENIAU



BYW Y BEIBL

| Mis Mai               | Darlleniad     |
|-----------------------|----------------|
| Wythnos 1             | Ioan 10:1-10   |
| Wythnos 2             | Ioan 14: 1-14  |
| Wythnos 3             | Ioan 14: 15-21 |
| Wythnos 4             | Ioan 17: 1-11  |
| Wythnos 5 - Pentecost | Actau 2: 1-21  |

## DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Elin Wyn, Dr Myfanwy Jones, Steffan a Gareth Jones a llu o deuluoedd am y lluniau'r mis hwn.



## **Gweddiwn**

**Dad Nefol**

**Clyw ein cri dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan Covid-19.**



**Gweddiwn dros y rhai sydd wedi colli anwyliaid a'r rhai sy'n sâl yn yr ysbyty neu yn eu cartrefi.**

**Cyflwynwn hefyd y rhai hynny sydd mewn cartrefi gofal heb fedru derbyn ymwelwyr a phawb sy'n hunanynysu.**

**Cyflwynwn bawb sy'n teimlo'n unig neu'n bryderus a chyflwynwn ein hunain, ein hamgylchiadau a'n teimladau i ti.**

**Diolch dy fod ti yn Dduw ffyddlon sy'n gwrando ein cri. Gweddiwn am dy gynhaliaeth a'th nerth i bawb yn y dyddiau anodd hyn.**

**Gofynnwn hyn yn enw ein hachubwr Iesu Grist.**

**Amen**

***Gweddi o wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***

## **DIOLCH YN FAWR**

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**GWYNN AC ANN BOWYER**

**a**

**PHILIP, JAYNE A LUCY JONES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



***DAW LLANW WEDI'R TRAI  
DAW ENFYS WEDI'R GLAW***

## Y STIWDIO FACH BRYSUR YN NHŶ BETI-WYN!



### Ffilm yr Ofalaeth



### Stori'r Plant



### Paratoi Oedfaon ar CD





## CERDYN YN CODI CALON

**D**oes dim un ffordd well o sirioli diwrnod unrhyw un na derbyn cerdyn cyfarch, yn enwedig cerdyn o waith llaw! Mae'n dod â gwên i'r wyneb ar unwaith! Mae fel derbyn anrheg ac yn dangos bod rhywun yn gofalu a phoeni amdanom. Efallai mai anfon e-byst ac e-gardiau yw'r ffordd fwyaf hwylus o gysylltu â phobl y dyddiau hyn ond nid yw'r rheiny'n cyfleu'r un cynhesrwydd ac anwyldeb rywsut â'r cardiau cyfarch. Mae'n wir dweud hefyd fod cardiau fel hyn yn rhoi llawer o bleser nid yn unig i'r derbyniwr ond hefyd y gwneuthurwr a'r rhoddwr.



Ac fe gafodd sawl aelod yn y Priorddy syndod yn ddiweddar wrth fynd at y drws ffrynt i godi'r post. Na, nid cylchlythyr neu fil neu gatalog oedd yno ond cerdyn cyfarch!



Ysgol Sul a Phobl Ifainc y Priorddy (PIP) fu wrthi'n creu'r cardiau cyfarch hyn a'u hanfon at yr aelodau hynny sydd wedi'u hynysu yn eu cartrefi. Sicrhawyd fod yr un neges ym mhob cerdyn, sef *'Cofion cynnes tuag atoch. Cadwch yn ddiogel ac yn iach. Oddi wrth (enw'r plentyn) ar ran Ysgol Sul a Phobl Ifanc Capel Y Priorddy.*

Anfonwyd dros ddeg ar hugain o gardiau i gyd ac mae'n fwriad i barhau i gynnal yr arfer yn ystod y cyfnod anodd hwn a thra bo drws y capel ar gau.

Wel, diolch yn fawr i'n Gweinidog am feddwl am y syniad ardderchog hwn ac i'r to iau am drafferthu i baratoi'r cardiau a'u danfon. Mae'n amlwg eu bod wedi taro deuddeg gyda'r aelodau fel y dengys y sylwadau isod.







### **Olive Lloyd**

Wel, mae hyn yn syniad ardderchog. Ro'n i wrth fy modd yn derbyn y cerdyn. Roedd wedi'i liwio'n arbennig a geiriau hyfryd y tu mewn. Diolch yn fawr iawn.

### **Gladwen Meredith**

Roedd hi'n annisgwyl iawn derbyn cerdyn fel hwn ond yn codi fy nghalon yn fawr iawn. Mae'r cerdyn yn edrych yn hardd dros ben ac yn cynnwys lliwiau'r enfys. Dw i felly wedi'i lynu wrth y ffenest gan ei fod yn symbol o ddiolch.



### **Eirlys Jones**

Diolch o galon i blant bach yr Ysgol Sul am fod mor feddylgar a chofio amdanon ni sy'n gaeth i'n cartrefi ar hyn o bryd. A diolch am y llun – tair calon ac enfys. Mae'r cerdyn yn cael y lle blaenaf ar y silff ben tân!

### **Eira Jenkins**

Ro'n i wrth fy modd yn derbyn y cerdyn, yn enwedig gan ei fod yn dod gan blant yr Ysgol Sul.

Cyrhaeddodd dau gerdyn ar yr un diwrnod. Un oddi wrth Traugott Scheuerpflug o'r Almaen, ffrind gorau Wyn, fy niweddar wr, ac un gan y Priordy – y naill gan berson hyn yr oedd ei dad yn weinidog a'r llall gan blentyn iau, eto â chysylltiad â chapel. Bu'r ddau gerdyn yn rhannu lle ar y silff ben tân. Diolch yn fawr iawn.



### **Alwyn Jones**

Ro'n i'n falch iawn o'i gael. Hyfryd derbyn rhywbeth gan y plant a gwybod hefyd eu bod yn cofio amdanaf. Cafodd ei osod ar y silff ben tân. Diolch yn fawr iawn.

# DETHOLIAD O'R CARDIAU CYFARCH A DDANFONWYD GAN BLANT YR YSGOL SUL



## NEWID BYD

**Bu newid aruthrol yn ein patrwm byw'n ddiweddar wrth i gapeli, colegau, ysgolion, tafarndai, clybiau, bwytai a mannau cyhoeddus eraill gau a chyfyngiadau ychwanegol ddod i rym fel rhan o'r ymdrech i atal Covid-19 rhag lledaenu. Tybed sut mae'r cyfan wedi effeithio ar aelodau'r Priordy? Bu Papur Priordy'n holi rhai ohonynt.....**



### ELIN WYN

Wrth dynnu at ddiwedd fy nghwrs gradd ym Mhrifysgol Birmingham, roedd yr haf cyfan wedi'i lenwi gan nifer o deithiau. Ond fel yn hanes pawb arall, daeth y Covid-19 a throi fy holl gynlluniau wyneb i waered.

Yn un peth, bu rhaid i mi adael y Brifysgol ar frys a symud adref cyn i'r feirws gydio'n iawn yn ardal Birmingham. Roedd hyn yn golygu ffarwelio'n ddirybudd bron â'r ffrindiau rwyf wedi rhannu llety â nhw ers tair blynedd. Hefyd, ni chafwyd cyfle iawn i glymu'r cyfnod ynghyd gyda'm ffrindiau yng Nghôr y Brifysgol, a'r Gymdeithas Gymraeg, heb sôn am fy ffrindiau sydd ar yr un cwrs â mi.



Roedd hi'n ras wyllt i lyfrgell y Brifysgol i gasglu cymaint o lyfrau â phosib, a phawb yn rhedeg o un man i'r llall mewn panig llwyr! Y gofid mwyaf oedd y byddem yn sownd yn Birmingham ac yn methu â theithio adre pe bai'r pandemig yn gwaethygu'n sydyn.

Wedi cyrraedd adref, rwyf wedi bod yn gweithio ar fy nhraethawd hir er mwyn cwblhau fy ngradd ac mae disgwyliadau'r cwrs gradd wedi newid ychydig mewn ymateb i'r sefyllfa, yn bennaf oherwydd diffyg mynediad i adnoddau. Rwy'n gobeithio graddio yn yr haf ond ni fydd y seremoni raddio tan fis Mawrth 2021.



Mae cynlluniau'r haf wedi'u chwalu'n llwyr – taith Côr Prifysgol Birmingham i'r Almaen, mynychu Cynhadledd Cyngor y

Genhadaeth Fyd-Eang yn Johannesburg ar ran yr Annibynwyr a mis yn teithio Awstralia gyda ffrind coleg.

Yn naturiol, mae dod â thair blynedd o gwrs Prifysgol i ben yn y modd hwn wedi bod yn siom fawr i mi, a holl gynlluniau'r haf wedi'u chwalu'n siom bellach. Ond, wrth i effeithiau Covid-19 afael yn ein byd, er y siom, gallaf ond diolch ei bod hi

mewn gwirionedd mor dda arna i. Rwy'n ddiogel, yn iach, yn medru graddio a digon o gyfleoedd o 'mlaen eto yn y dyfodol i gyflawni'r pethau na lwyddwyd i'w cyflawni eleni.

## STEFFAN A GARETH JONES

Mae 2020 yn profi i fod yn flwyddyn hollol wahanol i'r hyn roeddem ni'n dau wedi ei ddychmygu, a hynny am sawl rheswm.

Un o effeithiau mwyaf syfrdanol COVID-19 anom ni oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ganslo arholiadau TGAU a Lefel A. Roedd yn sioc enfawr i ni ar y pryd, gan i'r newyddion ddod mor sydyn wedi'r penderfyniad i gau ysgolion.

Roedd yn anodd credu na fyddem yn sefyll unrhyw arholiadau o gwbl yn hytrach na'u sefyll yn hwyrach yn y flwyddyn. Roedd gennym deimladau cymysg; ar y naill law, roeddem yn falch o gael gwared ar y pwysau a ddaw gyda'r arholiadau, ond eto roedd ychydig o siom am nad oeddem yn cael y cyfle i brofi'n hunain. Bydd ein canlyniadau



bellach yn seiliedig ar waith rydym eisoes wedi'i gwblhau, felly rhaid gobeithio y bydd yn ddigon er mwyn parhau â'n haddysg, wrth i'r naill ohonom fynd ymlaen i astudio Lefel A a'r llall yn bwriadu gadael am y Brifysgol.

Mae'r diffyg pêl-droed ar hyn o bryd hefyd wedi gadael bwch sylweddol, gyda'n disgwyliadau rai misoedd yn ôl o weld Cymru'n cystadlu ym mhencampwriaeth Ewro 2020 yr haf yma wedi'u difetha gan y feirws, a'r sicrwydd ynghynt o Lerpwl yn ennill yr Uwchgynghrair nawr mewn amheuaeth. Mewn ffordd, rydym yn falch na fydd yr Ewros yn cael eu cynnal tan y flwyddyn

nesaf, gan fod cyfle nawr i ni gael Joe Allen yn holliach i arwain Cymru i fuddugoliaeth!

Gobaith arall sydd wedi'i ddifetha oedd mynd ar wyliau gyda'r teulu eleni, a chynlluniau Steffan i deithio Ewrop gyda'i ffrindiau cyn i bawb adael am y Brifysgol. Yn amlwg, rydym yn siomedig nad ydym yn gallu mynd eleni, ond rhaid cofio mai digwyddiad dros dro yw'r pandemig yma, ac felly bydd cyfleoedd eraill ar gael i ni yn y dyfodol. Rhaid aros yn bositif yn ystod yr amseroedd ansicr yma.

## ALISON PARSONS.

Ym Mis Mehefin eleni fe fydd tair blynedd wedi mynd heibio ers i ni brynu caffi *Pethau Da*, ac mae'r profiad wedi bod yn un pleserus iawn ar y cyfan. Wrth gwrs, mae hi wedi bod yn waith caled ac ryn ni wedi wynebu nifer o heriau annisgwyl ar hyd y ffordd - ond un o'r uchafbwyntiau i mi yn bersonol oedd cynnal dathliadau Gŵyl Dewi Y Priordy yno eleni ar 2 Mawrth. Pwy fyddai wedi gallu rhagweld y bydden ni o fewn pythefnos yn cau drysau Pethau Da am gyfnod amhenodol, heb fawr o rybudd? Er nad oedd y Llywodraeth wedi'n gorfodi, roedd yn amlwg erbyn Dydd Mercher 18 Mawrth, er mwyn diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ffyddlon, fod yn rhaid i ni gau. Teimlad rhyfedd iawn oedd didoli a dosbarthu'r bwyd ffres na fyddem yn ei ddefnyddio. Wrth reswm roeddwn am i'r staff gael cymaint ag oedd yn bosibl. Rhan fwyaf anodd y dasg oedd dweud wrth y staff ein bod wedi penderfynu cau. Yn ffodus iawn roedd sawl aelod o'r staff am fod gartre am resymau gwahanol, rhai â phlant ifanc, eraill yn gofalu am berthnasau, a rhai'n hunanyysu.



Aeth y pedwar ohonom, Steve a finne, Hawys ac Ian yn ôl ar y dydd lau i wneud yn siŵr bod y Caffi'n ddiogel a glân ac i roi arwydd yn y ffenestr. Tra oedden ni yno roedd pobl yn dal i ddod at y drws ac yn siomedig ein bod wedi cau. Roedd hyn yn anodd ond erbyn drannoeth roedd y gorchymyn wedi dod gan y Llywodraeth i bob caffi a bwyty orfod cau.

*'Pethau Da'*\*

Does dim un ohonon ni'n gwybod yn iawn sut i ymateb, mae'r gair '*unprecedented*' wedi'i ddefnyddio'n ddibendraw, ond rydym yn gweithio drwy'r mynydd o waith papur sydd ei angen i geisio cael y gorau o'r help sydd ar gael i fusnesau bach.

Yn bersonol, rwy'n dal i weithio o gartre dri niwrnod yr wythnos yn fy ngwaith fel Gweithiwr Cymdeithasol, ac wedi cofrestru bellach fel gweithiwr allweddol / hanfodol (mae gen i lythyr!) Pwy a ŵyr beth fydd ei angen yn yr wythnosau nesaf, ond mae yna filoedd o rieni maeth sy'n gofalu am rai o blant mwyaf bregus ein cymunedau ac yn gwneud gwaith aruthrol. Cofiwch amdanynt yn eich gweddïau a'r holl weithwyr sy'n ein cynnal yn y dyddiau rhyfedd yma.

Ar nodyn mwy ysgafn, efallai eich bod yn gwybod ein bod wedi gwneud estyniad i'r tŷ a newydd symud yn ôl i fyw ynddo ar ôl treulio bron i flwyddyn yn byw yn Nhre Ioan. Mae rhestr y gwaith yn cynyddu bob dydd a dwi'n ffeindio digon i gadw Steve a Ffion yn brysur tra bo ni gartre! Cadwch yn ddiogel, arhoswch gartre lle bo modd, a



gofalwch am eich gilydd, gan obeithio y byddaf yn eich gweld yn fuan iawn yn ôl yn y Capel ac yn y Caffi.

## TEULU RHYS A MYFANWY JONES

Dechreuodd ein cyfnod ni'n ynysu'n hunain yn gymdeithasol fel gwyliau digon dymunol! Dim ysgol!  
Gweithio o gartref! Ond  
yn fwy na dim – yr haul!!  
Pwy allai ofyn gwell?!

Ond byddai'n wamal  
awgrymu bod cyfnod  
dychrynlyd o salwch  
penderig yn sgubo  
dros Ewrop yn fêl i gyd.

Rydyn ni i gyd wedi cael  
dyddiau anodd, yn  
emosiynol - pawb yn  
gweld eisiau teulu a ffrindiau, rhai'n gweld eisiau gwersi ac athrawon a phawb  
weithiau'n gofidio am yr afiechyd.



Ar y cyfan, roedd yr hyblygrwydd a ddaeth i ni'r merched o weithio o adref yn ddymunol. Roedd peidio ag ymdrechu i edrych yn daclus pob dydd yn rhyddhad, ac roedd pawb yn llwyddo i ysgogi eu hunain yn reit dda. I Rhys roedd y newid yn llawer mwy anodd. Gwnaed ymdrech ym myd Cyfraith Teulu i gynnal gwrandawiadau dros y ffôn. Fodd bynnag, buan y barnodd y barnwyr nad oedd achosion fel hyn yn foddhaol. Wedi'r cyfan, doedd dim modd effeithiol o gael tystion ar y ffôn. Mae angen gallu gweld wynebau, a phrofi ymatebion dynol mewn achosion llys, a dyna yw cynsail tegwch ein system cyfreithiol. Statws hunangyflogedig sydd i bob bargyfreithiwr ac mae'r gofid o beidio ag ennill arian yn un go iawn. Mae Rhys wedi dygymod â'r gofid (ar y cyfan!) drwy gadw ei hun yn brysur gyda thasgau y tu allan i'r tŷ. Mae'n ffaith bod jobsys wedi eu gwneud a fyddai wedi cymryd tair blynedd cyn cyrraedd top y rhestr o flaenoriaethau!

Ar y cyfan, rydyn ni'n cyfrif ein bendithion yn ddyddiol; mae byw yn harddwch Gorllewin Cymru yn wirioneddol wych. Rydyn ni'n llwyddo cadw rhyw fath o fywyd cymdeithasol rhithiol, mae pawb yn gwneud cymaint o ymarfer corff ag erioed ac rydyn ni i gyd yn iach. Rydyn ni fel teulu wedi closio, wedi canfod diddordebau newydd, a ffordd newydd o fyw. Tybed a fyddwn yn falch o ddychwelyd i normalrwydd pan ddaw?

## APÊL Y MIS – TARIAN CYMRU



### **Apêl Brys i Ariannu Offer Gwarchodol (PPE) i Weithwyr Iechyd a gofal Cymru: Ymateb Cymunedol**

Diolch i'r Dr Llinos Roberts am ein hannog i lansio'r Apêl hon  
yn yr Ofalaeth.

Ymddengys fod gweithwyr iechyd a gofal Cymru yn dal heb dderbyn offer gwarchodol (PPE) digonol er mwyn gofalu ar ôl cleifion - gan gynnwys cleifion sydd wedi dal yr haint, neu sydd wedi dangos symptomau o COVID-19. Mae'r sefyllfa'n rhoi'r gweithwyr mewn perygl, yn ogystal â'u teuloeedd â'u cymunedau. Tra bo'r argyfwng yn dwysáu, mae galw arnom ni yn ein cymunedau i weithredu er mwyn gwarchod GIG Cymru a'r sector gofal.

Mae 'Tarian Cymru' wedi lansio apêl arbennig i godi arian ar frys i sicrhau cyflenwad o offer gwarchodol i Gymru. Mae wedi sicrhau cadwyn i ddod ag offer gwarchodol o gyflenwyr byd-eang i Gymru. Mae hyn wedi'i gyflawni trwy bartnaeriaethau gydag arbenigwyr o gwmpas gwledydd Prydain, sy'n cyfrannu profiad mewn archebion am offer gwarchodol proffesiynol. Mae'r sefyllfa anarferol iawn sydd ohoni'n gofyn am ymatebion brys.

Bydd casglu arian ar gyfer offer gwarchodol i ysbytai a safleoedd GIG Cymru, yn ogystal â'r sector gofal, yn osgoi biwrocratiaeth ac yn sicrhau bod yr offer yn cyrraedd y bobl sy'n gweithio trwy'r dydd a'r nos i ofalu ar ôl eich ffrindiau, perthnasau a'ch cymunedau.

Plis cyfrannwch. Gallwch wneud hynny trwy wefan

Tarian Cymru [www.tarian.cymru](http://www.tarian.cymru)

Oes oes rhywun yn dymuno cyfrannu ac nad yw'n hyderus i wneud hynny drwy'r we, gallwch gysylltu â'r Gweinidog neu'r Dr Llinos Roberts.

**Diolch**




# WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

10-16 Mai 2020



**NID** yw cariad byth yn darfod - mae'r Coronafeirws yn effeithio arnom i gyd. Ond mae cariad yn ein huno.

A ninnau ar ddechrau mis Mai, bydd llawer ohonoch yn meddwl ymlaen at Wythnos Cymorth Cristnogol - ond, wrth gwrs, mae'r feirws Covid-19 wedi rhoi stop ar honno yn ei ffurf arferol. Mae iechyd a diogelwch ein cymunedau a'n casglwyr ym mlaen ein meddyliau a rhaid atal unrhyw gasgliadau o ddrws i ddrws a digwyddiadau codi arian torfol.



Mae Cymorth Cristnogol, fel eglwysi a chapeli ar lawr gwlad yn ceisio ffyrdd newydd o weithio ac o gysylltu gyda'n gilydd fel pobl drwy dechnoleg – ac mae pethau cyffrous yn digwydd yn y maes hwnnw wrth i ni ddysgu mwy.

Yn sicr, bydd pethau arlein yn digwydd i roi cyfle i bobl gyfrannu a chefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol - dros y ffôn, drwy neges destun ac arlein. Yn ogystal â bod yn Wythnos mor bwysig i godi ymwybyddiaeth o achos y tlawd yn fyd-eang ymhlith ein cymunedau, Wythnos Cymorth Cristnogol yw'r wythnos codi arian fwyaf yn y DG. Felly, rydym yn awyddus i wneud y gorau o'r cyfle ac yn croesawu unrhyw syniadau newydd gennych chi, bob un, am ffyrdd newydd i ddangos ein cariad at gymydog – dramor, gartref ac fel cymuned.

## Ein hymateb rhyngwladol

Mae gan nifer o bartneriaid Cymorth Cristnogol brofiad o gyfyngu lledaeniad haint ac fe ddysgwyd sawl gwers yn arbennig yn Sierra Leone yn ystod Argyfwng Ebola. Rydym yn gobeithio y bydd y gwersi hynny'n help i baratoi cymunedau tlawd i wynebu bygythiad Covid-19 mewn cymunedau lle mae golchi dwylo a hunanynysu'n fwy o freuddwyd nag o bosibilrwydd go iawn.

I bobl sy'n byw mewn gwersylloedd dyngarol neu mewn gwledydd heb ofal iechyd digonol mae ein partneriaid yn mynd ati i weithio ar lefel gymunedol i addysgu am y perygl ac i osod strwythurau yn eu lle i helpu i atal lledaeniad yr haint. Mewn llefydd fel **Cox's Bazar** lle mae miloedd o ffoaduriaid yn byw dan amodau heriol, rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i gynnig cyngor hylendid a golchi dwylo, a sicrhau bod cyfleusterau iechyd yn y gwersylloedd ar gyfer arwahanu a rhoi hyfforddiant i'r gweithwyr iechyd.



**Gofynnwn am eich gweddïau dros y gwaith hanfodol hwn – ac os hoffech gyfrannu gellir gwneud hynny arlein neu drwy ffonio un o'r swyddfeydd yng Nghymru – mae ein llinellau ffôn yn dod yn syth i'n cyfrifiaduron gartref tra bo'r swyddfeydd ar gau. Rhif ffôn Swyddfa Caerfyrddin 01267 237257. Bydd sieciau'n cymryd mwy o amser i'w prosesu ar hyn o bryd ond gallwch ddefnyddio ffordd amgen o gyfrannu.**

**Mae gweddïau wedi cael eu paratoi ar gyfer yr argyfwng ac maent ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg:**

**<https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws>**

**Plis gwnewch ddefnydd ohonynt fel unigolion neu fel teulu'r eglwys yn eich gwasanaethau digidol.**

Mewn cyfnodau fel hyn – cyfnodau caled – byddwn yn darganfod ein bod yn annatod glwm â'n gilydd. Mae Coronafeirws yn effeithio ar bob un ohonom, ond mae cariad yn ein huno i gyd.

|                                                                                     |                                                                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|  | <p><b>Urddas, Cydraddoldeb, Cyfiawnder, Cariad</b><br/> <b>75 Heol Dŵr, Caerfyrddin,</b><br/> <b>Sir Gaerfyrddin, SA31 1PZ,</b></p> |
|-------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

***Diolch i'r Parchedig Tom Defis am y wybodaeth hon***

## Y GROES Y TU ALLAN I'R PRIORDY



## Pren y Nadolig yn troi'n Bren y Groes



# Pecyn Pasg Plant Y Priordy – Detholiad o'u Gwaith

## Pecyn Pasg - tudalen 2




On tri niwmod ar ôl dydd  
Gwener y Grogith, sef ...  
mmm... dydd... Sul?  
Dydd Sul y Pasg.

Aeth rhai menywod at y bedd i  
chwilio am gorff Iesu. Roedd y  
bedd mewn craig, a'r graig  
mewn gardd.

On fe gafodd y menywod sioc!  
Doedd corff Iesu ddim ynol!  
Roedd Iesu yn fyw!

Helpwch Betsi-Wyn i ddathlu Su  
Y Pasg drwy lawio'r llun hwn o'r  
bedd gwag.



Ar ddydd Gwener Y Grogith,  
bu Iesu Crist farw ar y groes.

Bu farw Iesu ar mwyd bod yn  
Rhydian i Ddieu, ac helpai ar  
mwyd ein gennad n'n well  
gwel a'r byd yn well âs.

Mae Duw yn canu byd.  
Roedd Duw wedi gweld bod  
Bawer a ddwy yn ei bodi ac  
yn y byd ac felly roedd angen  
Rhydian i'w gael gwared ar y  
dwy.

Helpwch Betsi-Wyn i goffo  
Dydd Gwener y Grogith drwy  
lawio'r groes hon.

## Pecyn Pasg - tudalen 1

Ar ddydd Gwener Y Grogith,  
bu Iesu Crist farw ar y groes.

Bu farw Iesu ar mwyd bod yn  
Rhydian i Ddieu, ac helpai ar  
mwyd ein gennad n'n well  
gwel a'r byd yn well âs.

Mae Duw yn canu byd.  
Roedd Duw wedi gweld bod  
Bawer a ddwy yn ei bodi ac  
yn y byd ac felly roedd angen  
Rhydian i'w gael gwared ar y  
dwy.

Helpwch Betsi-Wyn i goffo  
Dydd Gwener y Grogith drwy  
lawio'r groes hon.



I FAN NOA MOR GWYBODA



## Pecyn Pasg - tudalen 1

Ar ddydd Gwener Y Grogith,  
bu Iesu Crist farw ar y groes.

Bu farw Iesu ar mwyd bod yn  
Rhydian i Ddieu, ac helpai ar  
mwyd ein gennad n'n well  
gwel a'r byd yn well âs.

Mae Duw yn canu byd.  
Roedd Duw wedi gweld bod  
Bawer a ddwy yn ei bodi ac  
yn y byd ac felly roedd angen  
Rhydian i'w gael gwared ar y  
dwy.

Helpwch Betsi-Wyn i goffo  
Dydd Gwener y Grogith drwy  
lawio'r groes hon.



**Diolch i'n Gweinidog  
am y Pecyn  
Pasc**

## Pecyn Pasg - tudalen 3

Drwy ddad yn fyw, mae Iesu wedi cynnwys bywyd  
newydd i bawb. Mae'r Wyl Pasg yn arwydd o  
fywyd newydd.

Helpwch Betsi-Wyn i addurno'r Wyl ond bydd  
angen ddefnyddio'r lliwiau cywrt!

Coch - i goffo am wlad Crist.  
Brown - i goffo am bren y groes.  
Du - i goffo am dywylltch Gwener y Grogith.  
Gwyrdd - i goffo am y bywyd newydd yn Iesu.  
Gwyn - i goffo bod Iesu yn bor a glân.  
Melyn - i goffo bod cariad Duw yn pelydru.  
Porffwr - i goffo bod Iesu yn frenin.  
Oren - i goffo am y wlad ar fôr Sul y Pasg.





# Ifanc@Priordy

Helo bawb! Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel yng nghanol yr hen gyfnod rhyfedd hwn!



Diolch i bawb sydd wedi bod yn dilyn Islwyn yr Asyn ar Facebook yn darllen stori'r Pasg, a diolch arbennig i bawb sydd wedi llenwi'r Pecyn Pasg a ddanfonais atoch! Da iawn chi! Mae lluniau mewn man arall yn y papur hwn.

**Chwilair** sydd gen i ar eich gyfer y tro hwn. Yr Wyl fawr nesaf yw'r Pentecost, a dyna ben-blwydd yr Eglwys Gristnogol. Cafodd yr Eglwys ei geni pan ddaeth Duw, yn ei Ysbryd i ymweld â chriw o bobl a'u troi o fod yn bobl ofnus i fod yn bobl ddewr. Ydych chi'n ofnus ambell waith? A fi!

Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau yn y Chwilair yma? Pob lwc!

Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel a chadwch mewn cyswllt. Beti-Wyn x

## Chwilair Y Pentecost






Mae'r llythrennau dwbl yn cael eu rhannu'r tro hwn!

|          |             |           |           |
|----------|-------------|-----------|-----------|
| Bedyddio | Ysbryd Glân | Tafodau   | Tad       |
| Tân      | Iesu        | Jerwsalem | Pentecost |
| Duw      | Iaith       | Rhyfeddu  | Arwydd    |
| Nefoedd  | Gwynt       | Addo      |           |



# Pecyn Pasg Plant Y Priordy – Detholiad o'u Gwaith



# Pecyn Pasg Plant Y Priordy – Detholiad o’u Gwaith




## Dydd Gwener y Grogolith

Profiad rhyfedd iawn oedd peidio ag ymuno â chyfarfodydd arbennig y Tabernacl ar Nos Iau Cablyd a Bore Gwener y Grogolith a chario'r Groes i ben Bryn Myrddin ar y prynhawn dydd Gwener.



Diolch i'n Gweinidog felly am ddarparu oedfa fyw ar dudalenau Wepryd Capeli'r Ofalaeth ar Fore Gwener y Grogolith yn ychwanegol at yr hyn mae'n ei ddarparu ar ein cyfer o Sul i Sul. Cafodd yr oedfa hefyd ei rhannu gydag aelodau'r Tabernacl, Heol Awst ac Elim mewn ymdrech i geisio sicrhau bod cydaddoli yn digwydd yn y dref ar y diwrnod pwysig hwn. Cafodd hyn oll ei werthfawrogi'n fawr.



**DALIWCH ATI I GASGLU STAMPIAU A CHETRYN**



Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd  
Urdd Peace and Goodwill Message

18/05/2020



Stopio'r Cloc ac Ailddechrau  
Stop the Clock and Start Again

f i @Urddgobaithcymru t @Urdd

## Apêl am Gefnogaeth

Urdd Gobaith Cymru yw sefydliad ieuenctid cenedlaethol mwyaf Cymru, sydd wedi meithrin dros 4 miliwn o bobl drwy ei aelodaeth i fod yn falch o'u gwlad ac yn agored i'r byd.

Am 98 o flynyddoedd mae plant a phobl ifanc Cymru wedi estyn allan i'r byd gyda'u **Neges Heddwch ac Ewyllys Da** blynyddol. Mae'n unigryw i Gymru. Mae'n adlewyrchiad o ddyheadau pobl ifanc yn ein cymdeithas heddiw. Mae'n alwad i weithredu i'r byd.

Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwrando ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid -19.

Gofynnwn am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar  
18 Mai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.

Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru ar ddydd Llun 18 Mai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf **un** o'r **tri** pheth canlynol:

1. Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar 18 Mai gyda
  - Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff  
Emoji ac #heddwch2020
2. Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn llun / geiriad / gair o gefnogaeth / lluniau / fideo / cân gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at **heddwch@urdd.org**
3. Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb

**Helpwch yr Urdd - Helpwch Gymru**  
**Helpwch ein Pobl ifanc i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50**  
**o wledydd ar draws y byd yn 2020!**

**NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2020**

**Stopio'r Cloc ac Ailddechrau**

**Llythyr i'r byd gan ieuenctid Cymru**

**Annwyl bobl y byd**  
**Mae natur wedi ein hysgwyd – mae'n galw arnom i ddeffro**  
**Ry'n ni'n gwario'n ddiangen**  
**Ry'n ni'n gwastraffu'n ddiangen**  
**Ry'n ni'n teithio'n ddiangen**

**Annwyl ieuenctid y byd**  
**Nawr yw'r amser i ddiolch**  
**Diolch i'r rheiny ar y rheng flaen sydd wedi ein helpu i**  
**gario mlaen**  
**A gyda'n gilydd gallwn greu dyfodol gwell**  
**Dyfodol o edrych ar ôl ein hunain ac o eraill**  
**Dyfodol o gofio am y llai ffodus yn ein cymunedau**  
**Dyfodol o ofalu am y blaned**  
**Gweithredwch**

**Annwyl arweinwyr y byd**  
**Mae Coronafeirws wedi stopio'r cloc**  
**Gwrandewch ar bobl ifanc Cymru a'r byd yn sefyll gyda'n**  
**gilydd**  
**Gweithredwch drwy gymryd cyfrifoldeb dros ein dyfodol ni**  
**Mae'r byd wedi deffro.**  
**Nawr deffrwch chi.**

**Eisiau mwy o fanylion e-bostiwrch - [heddwch@urdd.org](mailto:heddwch@urdd.org)**

## A nawr, yoga

(Dyma eiriau cyntaf un o lyfrau  
enwocaf yoga,  
'Edefynnau Yoga Patanjali')

**G**ŵyr rhai ohonoch fy mod yn dysgu yoga yn festri'r Priordy ers mis Hydref diwethaf. Diolch o galon i chi am y croeso! Mae teimlad cartrefol a chynnes braf yn yr ystafell a diolch i chi'r aelodau sydd yn creu'r awyrgylch hwnnw. Hoffwn hefyd ddiolch i Beti-Wyn am fod mor barod i gytuno i gael dosbarth yoga yn y festri. Nid pob arweinydd capel ac eglwys sydd mor agored, ac yn wir, gwn am sawl achos yn Lloegr lle mae dosbarthiadau yoga wedi eu gwrthod am y gred ddi-sail eu bod yn wrth-Gristnogol. Felly diolch, Beti.



Dw i'n adnabod rhai ohonoch trwy'r yoga, ond i rai ohonoch sydd ddim yn fy adnabod, rwy'n byw ym Mhontyberem, Cwm Gwendraeth, gyda fy ngŵr, Aneirin a'n plant, Sisial ac Erwan ers 2009. Ond Gog ydw i. Cefais fy ngeni a'm magu ym mhentref Tal-y-Bont, Dyffryn Ogwen. Cefais fy addysg yn ysgolion Llanllechid a Dyffryn Ogwen, a bûm am flwyddyn yn dysgu Saesneg yn Tokyo, Siapan, cyn mynd i astudio gradd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Capel yr Annibynwyr, Bethlehem, Tal-y-Bont oedd fy nghapel, ond pan oeddwn yn fy arddegau, dechreuais fynychu cyfarfod y Crynwyr ym Mangor, a Chrynwraig ydw i hyd heddiw, er nad oes gen i gyfarfod y byddaf yn ei fynychu'n lleol ar hyn o bryd. Tua'r un pryd ag y darganfyddais y Crynwyr, darganfyddais yoga, ac rwyf

wedi bod yn astudio'r ddisgyblaeth ers dros ugain mlynedd bellach. Felly dyna hanes bras fydd, efallai, yn helpu i egluro fy safbwynt wrth i mi geisio amlinellu i chi beth yw yoga i mi a pham rwyf yn credu ei fod mor bwysig.



Prif bwrpas ac ystyr y ddisgyblaeth a'r traddodiad Indiaidd a elwir

yn yoga yw'r daith fewnol, ysbrydol, i ddod i ddeall mwy amdanom ni ein hunain. Mae'r gair Sanskrit, 'yoga', ei hun yn cyfleu'r syniad o undod ac ystyrir fod uno'r corff, y meddwl a'r enaid, yn ei dro yn dod â ni i sylweddoli bod pob enaid unigol yn rhan annatod o'r cyfangorff - y ffrwd ddi-dor o fywyd sydd yn rhedeg trwyddom ni a thu hwnt i ni. Y cam cyntaf yn y broses hon yw dod i adnabod y corff a llif yr anadl drwy symud ac anadlu, yna dysgwn sut i ffrwyno'r synhwyrau a chyfeirio'r meddwl, ac yna, yn araf bach dros gyfnod o amser, datguddir i ni'r llonyddwch a'r cariad sydd yn bodoli wrth ein gwraidd. Wrth gwrs, mae llawer mwy o ddyfnder ac arlliw, na allaf eu cyfleu mewn erthygl fer. Ond yr hyn yr hoffwn ei bwysleisio yw bod yr undod a gynigir gan y traddodiad yoga yn wrthbwynt clir i'r gwerthoedd myfiol a chyfalafol sy'n cael eu dyrchafu a'u poblogeiddio yn ein cymdeithas heddiw.

O'm profiad a'm hastudiaeth i o yoga, deallaf fod yr undod mewnol a ddaw o'r broses yoga yn cyfrannu at undod allanol. Roedd **BKS Iyengar**, un o athrawon yoga mwyaf poblogaidd yr ugeinfed ganrif, yn hoff o atgoffa ei ddisgyblion fod canfod heddwch rhwng cenhedloedd yn ddibynol ar ganfod heddwch o fewn y genedl fechan sydd y tu mewn i bob un ohonom. Cytunaf â'r datganiad hwn. Mae'r gwaith mewnol o ddod i ddeall ac adnabod ein hunain yn trwytho ein gweledigaeth a'n gweithgaredd allanol ac yn ein maethu gyda'r gwytnwch a'r dyfalbarhad i weithio dros heddwch a chyfiawnder yn ein byd.



Dydw i ddim yn credu mai yoga yw'r unig ffordd i wneud hyn, o bell ffordd. Mae gen i ddiddordeb mawr iawn yng nghrefyddau a thraddodiadau athronyddol y byd - pob un ohonynt a dweud y gwir. Rwyf wrth fy modd yn dysgu am bobl a'u gweld yn addoli mewn ffyrdd amryliw ac aml-gred, a does dim ots o gwbl gen i ba Dduw na phroffwyd mae rhywun yn ei ddewis. Yr hyn mae gen i ddiddordeb ynddo yw beth yw eu profiad mewnol o'u hysbrydlrwydd, a sut mae hynny wedyn yn arwain eu hymddygiad a'u gweithredoedd yn y byd. Rwy'n gwybod am ymarferwyr yoga sy'n Gristnogion, yn Fwslemiaid, yn Hindwiaid, yn Fwdyddion ac yn Iddewon yn ogystal â rhai sy'n arddel dim crefydd o gwbl. Ond mae pob un ohonom yn canfod, drwy yoga, y tŵls i feithrin a magu ein llwybr ysbrydol o fewn pa bynnag draddodiad yr ydym yn ei ddilyn.



O geisio egluro hynny mewn cyn lleied o eiriau, sylweddolaf fy mod mewn perygl o orsymleiddio yoga, o'i gymryd allan o'i draddodiad a'i gyd-destun diwylliannol a'i briodoli i'm pwrpas fy hun. Nid dyna yw fy mwriad. Credaf y dylai unrhyw astudiaeth ddofn o yoga osod y ddisgyblaeth yn ei chyd-destun hanesyddol, crefyddol, diwylliannol a gwleidyddol. Yn hynny o beth, caf fy ysbrydoli gan un o gyn weinidogion Capel y Priordy, **Cyril G. Williams**, o Bont-ïets, a dorrodd ei gwys ei hun ym maes astudiaethau crefyddol cymharol gydag arbenigedd yng nghrefyddau'r Dwyrain. Noda Cyril Williams mai "*profiad y rhan fwyaf yw fod astudiaeth o grefyddau eraill yn gorfodi'r credadun i geisio gwell ddealltwriaeth o natur ei ffydd ei hun* (C G Williams, *Crefyddau'r Dwyrain*, t.351). Edrychwn allan er mwyn dod i ddeall ein hunain yn well. Ac o ymarfer yoga, edrychaf i mewn i ddod i ddeall y byd yn well. I mi, mae'r ddau cyn bwysiced â'i gilydd



***Diolch yn fawr iawn i Laura am yr erthygl ddiddorol hon a gobeithio y bydd y gwersi yoga'n gallu ailddechrau yn Festri'r Priordy'n fuan iawn.***

#### **📞 CYNLLUN FFFONIO FFRIND MERCHED Y WAWR 📞**

Mae'r Mudiad wedi lansio cynllun i annog pobl i ffonio ffrind. Felly, os ydych chi'n gwybod am rywun sy'n unig, wrth ei hunan neu sydd eisiau sgwrs yn ystod y cyfnod anodd ac ansicr hwn, cofiwch godi'r ffôn - mae'n golygu llawer i'r bobl hyn! Mae croeso i unrhyw un gysylltu hefyd â'r rhif ffôn yma

**01970 611 661** os ydych eisiau sgwrs!



#### **GWASANAETH HAF CARTREF PLAS Y DDERWEN**

**Prynhawn Gwener – 9 Mehefin 2020 – 2 o'r gloch**

**gyda'n**

**Gweinidog**

**Croeso i bawb**



# ISLWYN YR ASYN A BETI-WYN YN DARLLEN STORI'R PASG I BLANT YR YSGOL SUL DRWY FACEBOOK



# LADI'R LAMP A BLWYDDYN Y NYRS A'R FYDWRAIG

**TIPYN** o gamp oedd agor Ysbyty Nightingale, ysbyty dros dro cyntaf Llywodraeth Prydain, yn Llundain ar 3 Ebrill 2020 mewn amser mor fyr er mwyn parhau gyda'r frwydr yn erbyn Covid-19.

Mae wedi'i leoli yng Nghanolfan ExCel yn ardal y dociau yn nwyrain Llundain.

Cymerodd yr ysbyty sy'n cynnwys cyfleusterau ar gyfer o leiaf 4000 o welyau naw niwrnod yn unig i'w gwblhau. Mae'n dwyn enw person go arbennig, Florence Nightingale, y nyrs enwocaf erioed a aned ddeucan mlynedd yn ôl ar 12 Mai 1820 yn yr Eidal.



Roedd Florence a enwyd ar ôl man ei geni, yn hanu o deulu



aristocrataidd ac ariannog. Cafodd ei haddysgu ar yr aelwyd ond siom fawr i'r teulu oedd deall ei bod yn dymuno bod yn nyrs. Doedd nyrsio ddim yn cael ei ystyried yn waith parchus o gwbl a'r disgwyl oedd iddi briodi'n dda. Yn ferch hardd, ddeallus a thalentog, roedd hi'n teimlo'i bod wedi'i galw gan Dduw i helpu'r tlawd a'r gwael. Roedd hi'n grefyddol iawn, wedi'i chodi yn y traddodiad Undodaidd. Daeth yn glir iddi mewn amser mai gofalu am gleifion oedd ei galwedigaeth. Ildiodd ei theulu i'w dymuniad a gadael iddi hyfforddi i fod yn nyrs yn yr Almaen.

Ym 1853 dechreuodd Rhyfel y Crimea rhwng Ymerodraeth Rwsia a chynghrair o wledydd gan gynnwys Prydain. Daeth adroddiadau yn ôl i Brydain fod cyflwr ysbytai'r fyddin yn echrydus o wael a safon glendid yn isel iawn. Yn dilyn storm o brotestiadau, gofynnodd y Llywodraeth i Florence Nightingale fynd yno i helpu. Buan iawn y casglodd at ei gilydd 38 o nyrsys o wahanol urddau crefyddol cyn mynd tua diwedd 1854 i Scutari yn Nhwrcei lle roedd prif ysbyty'r fyddin. Roedd yn lle llaith a brwnt yn llawn o gleifion clwyfedig yn dioddef o oerfel, newyn a syched.

Trwy weithio oriau maith daeth hi â'r nyrsys â'r lle i drefn, gan gyflawni gwaith rhyfeddol mewn cyfnod cymharol fyr. Byddai'n rhoi pwyslais ar wella materion fel glanweithdra, awyru, draeniad, gofod, ymarfer a bwyd maethlon er mwyn lleihau cyfraddau marwolaeth. Gwnaeth ddefnydd llawn o'i gallu mathemategol i ddadansoddi data gan ddangos fod mwy o filwyr yn marw o afiechydon wedi'u hachosi gan ofal iechyd afiach y gellid ei osgoi nag o ganlyniad i anafiadau ar faes y gad. Roedd dawn arbennig ganddi i arwain a threfnu a dod â phethau i fwcl. Ond ddaeth y cyfan ddim yn rhwydd iddi o gwbl a bu rhaid iddi wynebu gwrthwynebiad rhai o awdurdodau'r fyddin.



Cafodd ei hadnabod fel Ladi'r Lamp am ei bod yn mynd o gwmpas y wardiau bob nos â'i lamp yn ei llaw, ac yn gwneud yn sicr fod pawb yn gyffyrddus. Ond roedd hefyd ochr arall i'w chymeriad. Roedd hi'n gallu bod yn bengaled ac yn benderfynol iawn. Cafodd ei chyhuddo o fod yn dipyn o deyrn ond roedd y milwyr dan ei gofal yn meddwl yr holl fyd ohoni.

Yma yng Nghymru mae Elizabeth Davis neu Betsi Cadwaladr o'r Bala'n arwres ac yn cael ei

hadnabod fel y '*Florence Nightingale Cymreig*'. Yn ôl yr hanes, bu cythrwfl rhwng y ddwy yn Scutari cyn i Betsi symud i Balaclafa i weithio mewn amodau budr i ofalu am y milwyr ac yna ddod yn gyfrifol am y gegin. Boed hynny fel y bo, mae'r Dr Gruffydd Jones yn ei waith ymchwil diweddar yn honni mai seiliau simsan sydd i'r straeon sydd wedi portreadu Betsi Cadwaladr fel arwres ac arloeswr.




Daeth Rhyfel y Crimea i ben ym Medi 1855 ond ym mis Awst 1856 y dychwelodd Florence adref ar ôl i'r milwyr olaf adael Scutari. Cafodd ei derbyn yn arwres ond doedd hi ddim yn dymuno'r holl sylw. Dim ond 36 oed oedd hi ond gadawodd yr holl waith caled ei ôl arni ac ni fu'n holliach fyth wedyn. Bu'n gaeth i'w gwely am gyfnodau maith hyd ddiwedd ei bywyd.

Fu dim pall ar ei huchelgais, serch hynny. Parhaodd i weithio'n

galed i wella safonau iechyd. Sefydlodd ysgol hyfforddi nyrsys yn Ysbyty St Thomas yn Llundain ac ysgol i fydwragedd yn Ysbyty Coleg y Brenin – yr ysgol gyntaf o'i bath. Mae Cyfadran Nyrsio a Bydwreigaeth Nightingale yn rhan o Goleg y Brenin, Llundain erbyn hyn. Bu Florence hefyd yn doreithiog ac amryddawn yn ysgrifennu llyfrau, adroddiadau a phamffledi am reoliadau nyrsio a gwybodaeth feddygol, gan wneud defnydd arloesol o ddata ystadegol ar ffurf graffig.

Bu farw yn 90 oed ar 13 Awst, 1910 ac, yn unol â'i dymuniad, cafodd ei chladdu yn agos at gartref ei rhieni, yn St Margaret, Dwyrain Wellow, ger Embley Park yn Swydd Hampshire yn hytrach nag yng nghanol y mawrion yn Abaty Westminster.



Ailagorodd Amgueddfa Florence Nightingale yn Ysbyty St Thomas ar 10 Mai 2010, adeg canlwyddiant ei geni yn dilyn gwaith adnewyddu sylweddol. Mae arddangosfa arbennig yno i gydfynd â deucan mlwyddiant ei geni.

**MAE** gennym ni i gyd le i ddiolch am waith arloesol Florence Nightingale. Un o'i llwyddiannau mwyaf oedd troi proffesiwn nyrsio yn broffesiwn parchus i fenywod. A ble bydden ni heddiw yn unrhyw un o wledydd Prydain a thu hwnt, yng nghanol argyfwng Covid-19, heb ein nyrsys? Mae'n dda i ni gael ein hatgoffa am natur ofalgar ac ymroddiad Florence Nightingale yn ei dydd - nodweddion y mae nyrsys heddiw, yn fenywod a gwrywod fel ei gilydd, yn eu harddangos yn helaeth iawn. Does ryfedd ychwaith fod Sefydliad Iechyd y Byd yn neilltuo 2020 fel Blwyddyn y Nyrs a'r Fydwrraig er anrhydedd i'r wraig arbennig hon.



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?  
Trowch at: [cyfundeb.com](http://cyfundeb.com)



## TUDALEN BLAEN

Rheswm Heledd ap Gwynfor dros ddewis  
Epistol Paul at y Rhufeiniaid Pennod 8: 22-25  
(beibl.net)



**22 Dŷn ni'n gwybod fod y greadigaeth gyfan yn griddfan fel gwraig sydd mewn poen wrth eni plentyn. 23 Ac nid dim ond y greadigaeth sy'n griddfan, ond ni hefyd sy'n Gristnogion, ac wedi derbyn yr Ysbryd Glân fel rhagflas o beth sydd i ddod. Dŷn ni hefyd yn griddfan o'n mewn wrth ddisgwyl i'r diwrnod ddod pan fydd Duw yn ein mabwysiadu ni ac y bydd ein corff yn cael ei ollwng yn rhydd! 24 Am ein bod wedi'n hachub gallwn edrych ymlaen at hyn yn hyderus. Does neb yn edrych ymlaen at rywbeth sydd ganddo'n barod! 25 Ond wrth edrych ymlaen at beth sydd ddim yma eto, rhaid disgwyl yn amyneddgar amdano.**

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod ymysg yr amseroedd anoddaf i ni orfod byw drwyddynt. Rydym yn greaduriaid cymdeithasol, ac mae'r diwylliant Cymreig yn gymdeithasol IAWN. Edrychaf i ymlaen, fel pawb arall, at gael cydaddoli a chydganu mawl yn y capel eto.

Mae'r wythnosau wedi bod yn rhai tywyll iawn gyda chynifer o fywydau yn cael eu cymryd, a bywydau eraill yn cael eu chwalu o'r herwydd. Ond bydd hwn yn mynd heibio ond i ni ddisgwyl yn amyneddgar amdano.



Tra bo nifer o'r boblogaeth yn ei chael hi'n anodd anadlu oherwydd y feirws dieflig hwn, teimlaf fod ein byd yn cymryd anadl fawr o ryddhad. Dyna pam dewis yr adnodau hyn o lythyr Paul at y Rhufeiniad. Mae'r byd wedi bod yn griddfan am gyhyd a ninnau wedi ei anwybyddu am yn rhy hir.

Gyda nifer yn galw am i bethau ddychwelyd i normal eto wedi'r cyfnod hwn, rhaid i ni wneud yn siŵr na fydd pethau fyth yr un peth eto. Rhaid creu 'normal' newydd, ac fel yr ysgrifenna Paul, does neb yn edrych ymlaen at rywbeth sydd ganddo'n barod!



**SYR O M EDWARDS**  
**Golygydd, Llenor, Addysgwr**  
***Bu farw 100 mlynedd yn ôl i'r***  
***mis hwn***



Fe'i ganed yng Nghoed-y-Pry, Llanuwchllyn ar 24 Rhagfyr 1858. Aeth i Ysgol y Llan, Ysgol Ramadeg y Bala ac yna, gyda'i fryd ar y weinidogaeth ar y dechrau, i Athrofa'r Bala ac i Brifysgol Cymru Aberystwyth lle graddiodd mewn Saesneg a Hanes. Aeth wedyn i Goleg y Brifysgol Glasgow ac yna i Goleg Balliol, Rhydychen lle cafodd yrfa ddisglair yn yr Ysgol Hanes Modern. Treuliodd gyfnod yn crwydro'r cyfandir cyn dod yn Gymrawd a Thiwtor Hanes yng Ngholeg Lincoln. Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Dafydd ap Gwilym yn Rhydychen. Am gyfnod byr bu'n Aelod Seneddol dros Feirionnydd ond doedd bywyd seneddol ddim at ei ddant. Ym 1907, fe oedd y cyntaf i'w benodi'n Brif Arolygwr yng Nghymru dan Adran Gymraeg y Bwrdd Addysg. Dyma pryd yr ymgartrefodd yn y Neuadd Wen, cartref newydd moethus yn Llanuwchllyn. Cyflawnodd waith nodedig fel Prif Arolygwr i sicrhau lle priodol i'r Gymraeg yn ein hysgolion, yn enwedig yn ein hysgolion elfennol, ac i wneud y diwylliant Cymraeg yn sylfaen addysg.

Bu'n golygu cylchgronau am gyfnod maith. Yn eu mysg roedd **Cymru Fydd** (ar y cyd ag R H Morgan), **Cymru** – *'i godi'r hen wlad yn ei hôl'*



yn ymdrin â hanes, llenyddiaeth, caneuon, celf ac addysg Cymru, a **Cymru'r Plant** - ei gyhoeddiad mwyaf poblogaidd. Bu hefyd yn gyfrifol am y cylchgrawn Saesneg **Wales** ar gyfer Cymry di-Gymraeg, **Heddyw**, misolyn byrhoedlog yn ymdrin â materion cyfoes Cymru a'r **Llenor**, cylchgrawn chwarterol yn trafod hanes, teithio tramor a natur yn ogystal â

llenyddiaeth - ond ni fu'r rhain mor llwyddiannus.

Ymhlith ei gyfrolau mae **A Short History of Wales, Hanes Cymru**,


**Cartrefi Cymru, Tro yn Llydaw a Clych Atgof.** Golygodd a chyhoeddi dwy gyfres o glasuron rhyddiaith a barddoniaeth Cymraeg, sef **Cyfres y Fil** a **Llyfrau ab Owen**. Cyhoeddodd hefyd **Cyfres Clasuron Cymru**.

Ar ben hyn oll, ysgrifennodd lyfrau i blant, fel **Llyfr Del**, **Llyfr Nest** a **Hwiangerddi**.

Roedd ganddo ddawn arbennig i olygu a thanio diddordeb ei ddarlennwyr yn hanes a diwylliant eu gwlad eu hunain a chafodd llawer o'i gynnyrch ddylanwad mawr ar feddylfryd y Cymry. Fel y dywed y *Bywgraffiadur Cymreig* 'mae'n gwbl amhosibl gorfawrygu ei wasanaeth i Gymru, ar adeg argyfyngus yn hanes ei llenyddiaeth. Magodd do o sgrifenydd ieuainc; gellid rhoi rhestr faith o lenorion blaenllaw a gychwynnodd eu gyrfa dan ei nawdd'.

Cafodd ei urddo'n farchog ym 1916 a derbyniodd radd anrhydedd gan Brifysgol Cymru ym 1918. Bu'n grefyddwr cadarn ar hyd ei oes, yn bregethwr ac yn flaenor yn Eglwys Glanaber, Llanuwchllyn ble roedd hefyd yn gofalu am ddosbarth Ysgol Sul.

Bu farw 15 Mai 1920 a'i gladdu ym mynwent Capel y Pandy Llanuwchllyn. Roedd wedi colli'i briod, Ellen Davies o'r Prys Mawr, Llanuwchllyn, flwyddyn ynghynt. Cawsant ddau fab ac un ferch. Un o'r meibion oedd Syr Ifan ab Owen Edwards, Sylfaenydd Urdd Gobaith Cymru ym 1922 a'r gŵr a agorodd yr Ysgol Gymraeg gyntaf ym 1939.



Cafodd Ysgol O M Edwards yn Llanuwchllyn ei henwi ar ei ôl. Mae hefyd gerflun i Syr OM a Syr Ifan wedi'i godi yn Llanuwchllyn ac mae i'w weld ar y ffordd i mewn i bentref Llanuwchllyn.



Ym mlwyddyn cofio canmlwyddiant ei farw mae'n briodol y gwelwyd cyhoeddi'r cofiant cyflawn cyntaf erioed am fywyd y gŵr rhyfeddol hwn sef **OM – Cofiant Syr Owen Morgan**

**Edwards** (Gwasg Gomer, Chwefror 2020) gan Hazel Walford Davies.

## YSBYTY GLANGWILI

Mewn ymateb i argyfwng y Coronafeirws rydym fel Gofalaeth wedi talu am nwyddau hylendid personol i gleifion mewn chwech o wardiau yn Ysbyty Glangwili. Diolch i Eleri James (Priordy) sy'n nyrs yn CCU am ein helpu i wybod beth yn union oedd angen ei brynu Mae'r cleifion yn cyrraedd yr ysbyty heb unrhyw nwyddau ymolchi, ac nid ydynt yn medru derbyn ymwelwyr i ddod â nwyddau iddynt. Dim ond hyn a hyn o bethau mae'r ysbyty yn medru'u darparu. Cyfrannwyd bocs cyfan o nwyddau i bob un o'r chwe ward gennym. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa eto mewn mis.



**Eleri gyda rhai o'i chydweithwr wedi derbyn y rhoddion**



***Ein Gweinidog yn cyflwyno cyflenwad o nwyddau hylendid personol i Eleri James (Y Priordy) ar gyfer 6 ward yn ysbyty Glangwili. Talwyd am yr holl nwyddau gan eglwysy'r Ofalaeth***



## COFIO'N CYFEILLION YN SALEM

Roedd hi'n ddrwg iawn gennym glywed am y lladrata a'r difrodi a ddigwyddodd yn Salem, ein gefaill eglwys yng Nghaernarfon. Mae hyn yn siom enfawr ac anfonwn ein cofion cynhesaf at y Parchedigion Ron Williams a Mererid Mair, y Gweinidogion a'r holl aelodau yn eu gofid. Rydym yn meddwl amdanynt ac yn gobeithio y daw pethau'n ôl i drefn yn fuan. A diolch iddyn nhw hefyd am anfon *Newyddion Salem* atom yn gyson ar gyfer Papur Priordy. Rydym yn mwynhau eu darllen yn fawr.



### YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / [info@maxevans.co.uk](mailto:info@maxevans.co.uk)

## CYFARFODYDD

*Rhown wybod pan fydd y cyfarfodydd canlynol yn ailddechrau  
Cwrdd Diaconiaid - Cyfres Agor y Gair - Y Drws Agored*

## Apêl 3D i Gefnogi Gweithwyr y Rheng Flaen

Mae Ysgol Gyfun Bro Myrddin, ynghyd â nifer o ysgolion a busnesau lleol, yn rhan o gynllun cymunedol sy'n creu

**Sgriniau Wyneb / Feisors** ar gyfer gweithwyr yn y gwasanaeth iechyd.

Maent yn cael eu creu gan Adran Dylunio a Thechnoleg yr ysgol ac yn costio £2 yr un i'w cynhyrchu. Mae cronfa wedi'i sefydlu yn Sir Gâr i

ariannu'r gwaith a gellir cyfrannu (ar y we) drwy:

**Go Fund** ar <https://www.gofundme.com/f/1ypsl074qo>

Diolch i'r Dr Eirian Thomas, Capel Bancyfelin am dynnu'n sylw at y galw sydd i gefnogi'r gronfa ariannol hon.



**AR Y WE:** [www.priordy.org](http://www.priordy.org) (yn cynnwys Papur Priordy)



**DYMUUNWN** yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn ac i'r rhai sy'n gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

Mae pobl yn dal i sôn am Ebrill y cyntaf 1985 pan syfrdanodd sioe **Radio Cymru Stondin Sulwyn** genedl gyfan wrth gyhoeddi y byddai Eisteddfod Genedlaethol 1991 yn cael ei chynnal yn America. Daeth i'r amlwg mai jôc ffŵl Ebrill oedd hi ond roedd nifer fawr o'r Cymry wedi cael eu twyllo ac yn gynddeiriog bod yr Eisteddfod yn symud mor bell. Adroddwyd yr hanes ar **BBC Cymru Fyw** ac esboniodd Sulwyn mai jôc Gymraeg fyddai ddim wedi gweithio yn unman arall oedd hon. Roedd y Cymry wedi cael ei dal a chwarae teg, roedd y rhan helaeth ohonynt yn fodlon cyfaddef hynny!

Bu Beti-Wyn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn cynnal seiat sydyn pan fu'n esbonio sut mae hi'n parhau i weinidogaethu er mwyn diogelu gymuned yr eglwys tra bo'r capel ar gau drwy ffyrdd sy'n gofyn addasu a cheisio meddwl yn greadigol a dyfeisgar. Bu hefyd ar **Bwrw Golwg** yn trafod pwysigrdd cofio pobl a dulliau amgen o wneud hynny yn wyneb y ffaith fod yr enwadau crefyddol yn ein hannog i beidio ag ymweld â mynwentydd i osod blodau ar feddau anwyliaid ar Sul y Blodau oherwydd peryglon Covid-19.



Ar **Newyddion S4C** un noson bu Iwan Griffiths yn holi pentrefwyr Bancyfelin am nodweddion y gymuned glos sydd yno ac fel mae pawb yn helpu'i gilydd yn ystod yr argyfwng. Cafodd Beti-Wyn gyfle i sôn fel mae paratodau'r capel yn parhau er bod y drysau ar gau. Bu Beti-Wyn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn esbonio sut mae'r Pasg, prif ŵyl yr eglwys, yn wahanol iddi'r tro hwn yn ystod cyfnod y cyfyngiadau o ganlyniad i Covid-19. Esboniodd fel mae'n addasu trefniadau'r dathlu ac fel mae miloedd yn troi at wasanaethau sy'n cael eu cynnal dros y we. Cawsom gipolwg hefyd ar gacen simnel a byns y grog sy'n cael eu pobi a'u mwynhau dros y Pasg a'r croesau arbennig a wnaethpwyd o goed Nadolig sy'n cysylltu'r ddwy ŵyl ac i'w gweld y tu allan i gapeli'r Priordy a Bancyfelin.

Braf oedd clywed y cyfarfchion i John a Mair Meredith ar **Prynhawn Da** ar **S4C** ar achlysur eu priodas ddiemwnt oddi wrth eu ffrindiau yng Nghaerfyrddin ac i

Beti-Wyn ar ei phen-blwydd gan y teulu.. Da hefyd oedd cael cyfle i ailweld **Delme** ar **S4C** pan fu nifer o'n cydnabod yn cymryd rhan.

Gwelwyd Beti-Wyn ar **Dechrau Canu, Dechrau Canmol (DCDC)** adeg Gŵyl y Pasg yn sôn am ddulliau amgen o weinidogaethu yn ystod argyfwng Covid-19. Yna ar Sul y Pasg Bach, bu'n arwain **Oedfa DCDC** ar **S4C** ar yr union Sul y dechreuodd yn weinidog yn ein Gofalaeth ddeunaw mlynedd yn ôl.

Bu Catrin Haf Williams yn adolygu'r papurau ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul** ac mae'r drama ddirgelwch **35 Diwrnod** o waith Fflur Dafydd wedi dechrau ar **S4C**. Diolch hefyd am y fidio hwyliog o'n Gofalaeth gan ein Gweinidog a fu, heb os nac oni bai, yn gyfrwng i godi'n calon yn ystod yr argyfwng!

**/ GLOI**, llongyfarchiadau i Angharad a Ieuan Wyn ar enedigaeth Miriam Haf, ar 24 Ebrill 2020 - chwaer fach newydd i Greta ac aelod newydd i Ysgol Sul y Priordy! Pob dymuniad da i'r teulu bach!



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n  
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

### CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Heledd a Gethin a Myfi a Deio ar golli mam-gu Heledd a hen fam-gu'r plant, sef Sarah Agnes Williams, Abergwaun (gynt o Rydcymerau) ar 3 Ebrill 2020.

Roedd yr angladd yng ngofal ein Gweinidog.

Anfonwn ein cofion cynnes at y teulu cyfan  
yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn yn ddidwyll iawn â Gwynfor a Janet Davies ar golli nai Gwynfor, sef Gerallt Davies ar 20 Ebrill 2020. Roedd Gerallt yn barafeddyg yng ngorsaf Cwmbwrla yn Abertawe ac yn Swyddog Gweithredoedd Cenedlaethol gydag Ambiwllans San Ioan.

Mae'n meddyliau gyda'i feibion Jonathan a Daniel, ei rieni, Eifion ac Avril a'i frawd Aled a'r teulu cyfan  
yn eu galar a'u hiraeth.

Mynegwn ein cydymdeimlad hefyd ag Elis a Meinir Jones a'r plant ar golli cefnder Meinir, sef Edwin Reece o Landeilo.

Cofiwn am y teulu cyfan yn eu colled.





# Y SULIADUR



## EIN TREFNIADAU YN YSTOD ARGYFWNG COVID-19

Mae Capel y Priordy ar gau hyd nes y clywir yn wahanol. Mae'r eglwys, fodd bynnag, yn parhau.

Mae dulliau amgen gennym ar waith i geisio cwrdd ag anghenion ysbrydol ein haelodau a chyfeillion eraill yn ystod cyfnod yr argyfwng. Maent yn cynnwys y camau canlynol:

- Darlledu Oedfa Fyw o'r Priordy drwy WEPYD / FACEBOOK ar fore Sul am 10 o'r gloch
- Recordio'r Oedfa hon ymlaen llaw a'i hanfon drwy ebost at ein haelodau
- Trosglwyddo'r oedfa i CD ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad i'r we.

Ar ben hynny, mae plant yr Ysgol Sul yn derbyn stori gan ein Gweinidog dros y We a gwahanol weithgareddau i'w cyflawni.

Rydym hefyd yn parhau i gyhoeddi *Papur Priordy* a'r *Ddolen* yn fisol ar y we ac mewn print yn ôl ein harfer.

Mae grŵp o aelodau iau'r eglwys wedi gwirfoddoli i rannu'n dimau er mwyn gofalu am fudd a lles ein haelodau hŷn a bregus, gan gynnig help iddynt gyda'u siopa ac ati yn ogystal â chynnal sgwrs â hwy. Mae meddygon sy'n gysylltiedig â'r capel hefyd yn barod i gynnig gair o gyngor i ni os bydd yr angen yn codi.

Bydd y Priordy'n anfon bwletinau cyson drwy'r rhyngwrwyd a'r ffôn er mwyn cyfddyddio gwybodaeth aelodau ynghylch unrhyw ddatblygiadau pellach mewn perthynas â threfniadau'r eglwys.